

Cyngor Cymuned Bryn-crug Community Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Fawrth 19eg o Hydref 2021 am 6:00pm

Presennol: Cynghorydd Bethan Lawton (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Alan H. Jones, Geraint Evans, Richard Evans, Arwel Pierce

1. Ymddiheuriadau: Dim

2. Datgan diddordeb: Dim

3. Cyngor Gwynedd - Economi a Chymuned - Ardal Ni 2035:

Rhodddwyd croeso gan y Cadeirydd i Mirain Llwyd Roberts a Gwen Evans i'r cyfarfod.

Dywedwyd bod Prosiect Ardal Ni 2035 yn edrych ar ba heriau sydd yn wynebu pobl llawr gwlad heddiw a'r dyfodol.

Beth yw'r pethau da sydd yn digwydd ym Mryncrug?

- gweddol saff yma/nid oes llawer o drosedd
- wedi bod yn dawel dros cyfnod y clo (covid19) / wedi bod yn brysur yn yr haf
- cyflwr cartrefi, safon y tai ar y tair ystâd yn dda iawn ar y cyfan / hyn yn ychwanegu at ansawdd bywyd
- lle braf, mynyddoedd a traeth dwy filltir i ffwrdd
- lle hamdden i fyw
- mynediad at pethau i'w wneud / cae chwarae / clwb pêl-droed / pwll nofio / llyfrgell ddim yn rhy bell

Y pethau sydd angen gwella / yn achosi pryder?

- NHS / gofal yn bryder / poblogaeth yn heneiddio
- sut mae modd cadw pobl ifanc yn yr ardal?
- wedi newid yn y 20bl diwethaf / hen deuluoedd wedi symud / pobl newydd wedi symud i mewn / nifer ohonynt dros 50 oed
- prisiau tai / dim cyfle i brynu tai / angen tai i rywun medru prynu
- dim tai fforddiadwy yn y pentref / tai yn cael eu gwerthu heb iddynt weld / tai gwyliau / canran uchel o ail gartrefi
- prisiau tai wedi codi llawer yn y deunaw mis diwethaf / angen tai ar rent
- cynllunio yn gyfyng a cul / gofod yn brin iawn ar gyfer tai newydd
- angen cynllun llogi tai, neu prynu wrth logi / angen tai fforddiadwy
- diffyg cyfleon i pobl hyn / cymdeithasu / nid oes clwb cinio / caffi / siop yn y pentref
- dim grwpiau gwirfoddol / cyfle i gyfarfod am goffi
- diffyg trafnidiaeth cyhoeddus / mynd i'r ysbty / gweld pobl yn yr ysbty
- pobl yn eu 80'au yn gorfod teithio o Fryn-crug i Ddolgellau i dderbyn y frechlyn
- pobl ifanc yn symud o'r ardal / angen gwaith a tai
- swyddi wedi mynd o Cae Penarlâg i Gaernarfon / banciau wedi cau / swyddfa post wedi cau
- cyfleon i weithio o adref / dim angen bod yn y prif drefi
- cyflogau yn isel
- diffyg cynnal a chadw gan Cyngor Gwynedd / torri gwair a chwyn yn tyfu o'r palmant
- pobl yn neud ymdrech i edrych ar ôl eu tai
- problem recriwtio athrawon / doctoriaid / staff iechyd / athrawon yn teithio mewn i'r ardal
- pobl angen ail gyflog / angen denu cwpl er mwyn cael dau gyflog / angen cael ail swydd proffesiynol

Twristiaeth gynaliadwy?

- pobl yn cael Asda/Tesco yn syth i'r garafán / nid ydynt yn cyfrannu i'r economi
- pobl yn aros mewn llefydd parcio dros nos
- methu ymdopi gyda mwy o bobl
- colli cysylltedd rhwng pobl leol ag ymwelwyr / nid ydynt yn cymdeithasu
- twristiaeth yn bwysig i'r economi
- anodd recriwtio gwirfoddolwyr i drefnu digwyddiadau
- colli ysgol y pentref, effaith ar y gymuned, ymdeimlad o gymuned

Edrych ymlaen i 2035?

- canolfan feddygol yn y pentref / canolfan lloeren

- siop / caffi / rhywle i gyfarfod / i gymdeithasu
- trafnidiaeth rhwydd er mwyn cyrraedd Ysbyty Bronglais
- swyddog o'r Cyngor yn ymweld a phentrefi unwaith y mis, cynnal cymhorthfa, darparu cymorth – dylid cynnal arbrawf

Mudiadau eraill i fod yn rhan yn yr ymchwil?

- Ffermwyr Ifanc
- Merched y Wawr
- Pwyllgor y Ganolfan
- Clwb Pêl-droed

Ardal Dysynni?

- dylid edrych ar Abergynolwyn, Brynchrug a Llanegryn
- un cynghorydd sir bydd o mis Mai 2022 ymlaen

PENDERFYNIAD: I ymateb i'r cwestiynau fel sydd wedi eu nodi uchod.

4. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Nid oedd dim mater brys i'w godi

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 7:00pm

Llofnod y Cadeirydd